**Ysgol Y Wern**
**Heol Llangrannog**
**Llanisien**
**Caerdydd**
**Cf14 5Bl**

# Tystiolaeth ychwanegol ar gyfer trafodaeth e-Ddeiseb yr ysgol:-

***'Gwahardd gwellt plastig(wrth yfed llaeth) yn ein hysgolion'***

## Dydd Mawrth 3ydd o Orffennaf 2018







## Geiriad y Ddeiseb

**"Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ystyried gwahardd y defnydd  o wellt plastig sy'n cael eu defnyddio wrth yfed llaeth yn ein hysgolion. Fel ysgol fawr derbyniwn tua 285 o boteli llaeth (ar gyfer y Cyfnod Sylfaen) yn ddyddiol gan gynnwys yr un nifer o wellt. Yn sgil yr ymgyrch byd-eang i leihau gwastraff plastig teimlwn fod gwellt plastig yn cael effaith andwyol ar ein hamgylchedd yn enwedig wrth ystyried eu bod yn cael eu defnyddio unwaith ac yna eu taflu. Pe bawn yn parhau gyda'r arfer yma byddai hyn yn arwain at y posibilrwydd fe fydd mwy o blastig yn ein moroedd na physgod erbyn 2050. Y ffaith amdani yw fod yr holl wellt yma yn cyfrannu'n sylweddol at lygru ein moroedd ac mae bywyd gwyllt mewn perygl."**

Rydym yn ddiolchgar iawn i chi fel Pwyllgor Deisebau am drafod ac ystyried ein deiseb i wahardd gwellt plastig pan yn yfed llaeth yn ein hysgolion.

Hoffwn atgyfnerthu ein deiseb wrth gyflwyno tystiolaeth ychwanegol ac i dynnu eich sylw at y canlynol :-

- Mae'r ysgol wedi ymrwymo i leihau defnydd o blastig. Rydym yn ysgol fawr ac yn derbyn 285 o boteli llaeth plastig yn ddyddiol. Mae gwelltyn plastig ar gyfer pob potel. Felly mae 1425 o boteli a gwellt yn cael eu defnyddio yn wythnosol. Mae'r gwellt plastig yn cael eu taflu yn y bin a'r poteli llaeth yn cael eu taflu yn y bin ailgylchu.
- Mae ein disgyblion a rhieni yn ymwybodol o effethiau andwyol plastig ar fywyd môr ac afonydd ac yn teimlo'n gryf y dylid cymryd camau positif i wahardd gwellt plastig.
- Rydym eisioes wedi gwahardd y defnydd o wellt plastig with yfed llaeth yn yr ysgol a hoffem weld pob ysgol drwy Gymru gyfan yn gweithredu yn yr un modd.
- Mae llais y dysgwr yn hollbwysig yn ein hysgol . Mae trafod pynciau llosg mewn ffordd ddeallus ,gwybodus ac egwyddorol yn ran annatod o ethos yr ysgol ac yn hollbwysig i wireddu dibenion Cwricwlwm i Gymru i greu dinasyddion sydd yn ofalgar tuag at ein byd. Hyfryd byddai meddwl fod lleisiau'r disgyblion yn cael effaith bositif ar eu dyfodol.
- Yr unig ffordd, rydyn ni'n teimlo, i gael cynghorau i gymryd camau pendant tuag at leihau gwastraff plastig yw drwy ddeddfwriaeth yn hytrach nag argymhellion.
- Mae Eco Ysgolion Cymru yn cefnogi'r ddeiseb felly byddai'n hawdd i wireddu gan fod gymaint o faneri gwyrdd yn hofran o flaen ein hysgolion yng Nghymru.
- Y cam nesaf byddai edrych ar sut i leihau y nifer o boteli llaeth plastig a ddefnyddir.





285 potel o laeth yn ddyddiol



285 gwelltyn yn ddyddiol



Bin Ailgylchu

Dyma luniau o’r gwellt plastig a’r poteli llaeth a ddefnyddir yn yr ysgol yn ddyddiol.



Crewyd pysgodyn allan o wastraff plastig













